# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Preswylfa**

**Cartref Nyrsio Preswylfa**
**20 Russell Road**
**Y Rhyl**
**LL18 3DD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Nyrsio Preswylfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Akari Care Cymru Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 68 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Tachwedd 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus ac yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r staff yn rhoi gofal a chymorth mewn ffordd garedig a gofalgar ac mae'r bobl yn ymddangos yn fodlon eu byd. Mae'r staff gofal yn deall anghenion iechyd y bobl, a gwneir atgyfeiriadau amserol er mwyn cael cyngor ac arweiniad pan fo angen. Mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu'r person sy'n cael gofal ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl gymryd rhan ynddynt. Mae digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion presennol y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r staff yn cael hyfforddiant a chymorth cyson.

Mae systemau ar waith fel rhan o fesurau sicrhau ansawdd a gofynnir am farn y bobl. Mae gwybodaeth o'r fath yn helpu darparwr y gwasanaeth i nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a lle mae angen gwelliannau. Mae'r cartref yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r bobl fyw ynddo sy'n ddiogel, yn lân, ac yn diwallu eu hanghenion.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd, gwrandewir arnynt a chânt eu cynnwys wrth wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Rhoddodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth adborth cadarnhaol i arolygwyr AGC ac maent yn canmol y gweithwyr gofal a'r rheolwr. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol ac maent yn cydweithio i sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn fanwl ac yn rhoi arweiniad i'r gweithwyr gofal o ran y ffordd orau i roi cymorth i'r person allu cyflawni ei ganlyniadau personol. Anogir y bobl i wneud penderfyniadau ar faterion o ddydd i ddydd fel dewis prydau bwyd, pryd yr hoffent godi a gweithgareddau dyddiol.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Mae'r staff yn sylwgar, yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at y bobl a gwelsom sawl enghraifft o hyn drwy gydol y dydd. Mae'r ddogfennaeth gofal yn dangos bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael yn hwylus i'r bobl a bod ceisiadau am gyngor meddygol neu gyngor proffesiynol arall yn cael eu gwneud mewn modd amserol. Mae'r gweithwyr gofal yn cynnig diodydd a lluniaeth ac yn sicrhau bod gan y bobl ddigon ohonynt drwy gydol y dydd. Maent yn gwybod am hoff bethau a chas bethau, alergeddau a deietau arbenigol y bobl. Mae cydberthnasau da rhwng y bobl a'r staff ac mae hyn yn helpu i gefnogi llesiant ac iechyd emosiynol y bobl. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol y dydd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o gamdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisi diogelu cadarn ar waith ac mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu oedolion. Mae gwiriadau recriwtio ar waith i sicrhau bod y gweithwyr gofal yn addas ar gyfer y rôl. Mae'r gwasanaeth yn cymryd camau prydlon ac yn hysbysu'r asiantaethau perthnasol am ddigwyddiadau, pryderon neu faterion diogelu. Mae asesiadau risg ar waith i roi arweiniad ar sut i gadw'r bobl ac eraill yn ddiogel ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r gweithwyr gofal yn mynychu hyfforddiant diogelu ac yn deall eu rolau o ran amddiffyn y bobl.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae safonau glendid a hylendid yn dda ac mae gwiriadau, gwaith gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn sicrhau bod yr amgylchedd mor ddiogel ag y gall fod. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith i adnewyddu'r ystafell golchi dillad. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli i raddau amrywiol, yn seiliedig ar ddewisiadau unigol y bobl. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei arolygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a rhoddwyd sgôr o 5 iddo, sy'n dangos bod y gwasanaeth yn dda iawn.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hyderus eu bod yn cael y gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn y ffordd y maent am ei gael. Caiff amrywiaeth eang o wybodaeth ei hystyried cyn i'r gwasanaeth gadarnhau y gall ddiwallu anghenion person. Cynhelir asesiad cyn derbyn manwl gan aelod o'r staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn nodi pa ofal sydd ei angen ar y bobl, a sut i'w ddarparu, gan nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda. Mae'r darparwr yn annog annibyniaeth ac yn cefnogi'r bobl i wneud pethau drostynt eu hunain os yn bosibl. Mae'r darparwr yn cwblhau proffil o'r person sy'n rhoi darlun clir o'r unigolyn, gan gynnwys ei hoff bethau, ei gas bethau, ei ddiddordebau a'i gryfderau. Dywedodd un person "*This place has changed my life. I'm more than looked after. They keep me informed of how my husband is, if the manager has time, he takes me out in his car. The rest of the staff here are marvellous. I only have to push my button and they come straight away".* Gwelsom fod y clychau galw o fewn cyrraedd ac yn cael eu hateb yn brydlon gan y staff.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn fodlon ac yn hapus. Gwelsom y bobl yn mwynhau eu hunain, ac yn cael eu bodloni ar lefel emosiynol, yn gymdeithasol, yn gorfforol ac yn ddeallusol. Gwelsom hefyd fod digwyddiadau ar gael iddynt edrych ymlaen atynt. Gwelsom y staff yn bod yn garedig ac yn dyner gyda'r bobl, a'r bobl yn ymateb yn dda i hynny. Gall ymwelwyr ddod i weld y bobl ar unrhyw adeg yn ystod y dydd, felly mae eu hanghenion cymdeithasol yn cael eu diwallu. Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau strwythuredig i'r bobl o weithgareddau celf a chrefft, sgitls llawr, gwau, gemau i hel atgofion, therapi cerdd a dawns. Mae'r darparwr yn trefnu i ddiddanwyr ymweld â'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn mwynhau'r gweithdy pobi, y stondin ewinedd yn yr ystafell weithgareddau ac maent yn mwynhau bod yn rhan o'r clwb garddio.

Mae'r bobl yn cael budd o ddeiet iach, ac roedd sylw yn cael ei roi i'w gofynion maeth a hydradu. Mae'r bobl yn mwynhau prydau bwyd a diodydd priodol, iach a maethlon. Cynigir dewis o brydau wedi'u coginio'n ffres i'r bobl ac mae bwydlen lysieuol ar gael i'r rhai sydd am ei chael. Mae'r bobl yn dewis pryd a ble i gael eu prydau, a gwelsom y bobl yn bwyta brecwast ar wahanol adegau. Gwelsom fod amser bwyd yn brofiad hamddenol a bod y staff yn treulio amser gyda'r bobl. Mae'r darparwr yn cynnig profiad amser bwyd cyfoethog, gan osod llieiniau ar y byrddau, a gosod cyllyll a ffyrc, pupur a halen ac ati, ar y byrddau. Mae bwydlen amrywiol yn cael ei harddangos ac mae opsiwn 'prydiau ysgafn' ar gael. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau eu pryd. Gwelsom fod gofynion deietegol y bobl wedi'u nodi'n glir yn y ddogfennaeth gofal ac mae'r wybodaeth ar gael i staff y gegin. Lle ceir risg y bydd unigolion yn colli pwysau neu'n dadhydradu, cânt eu monitro'n agos a chymerir camau cyflym os bydd unrhyw bryderon yn codi.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom amrywiaeth o ardaloedd personol a chymunedol yn y cartref, ac mae'r ardal fwyta yn cynnig profiad amser bwyd hamddenol i'r bobl. Mae'r ystafelloedd gwely unigol yn cynnwys eitemau personol a llawer o ffotograffau a dodrefn teuluol. Mae'r coridorau yn llydan, ac nid oes unrhyw annibendod, sy'n galluogi'r bobl i symud o gwmpas yn rhydd ac yn ddiogel. Mae’r ardal weithgareddau, sy’n fawr iawn, yn cynnwys llawer o ddeunyddiau er mwyn gallu ymgysylltu â'r bobl, gan gynnwys gemau, llyfrau, cryno ddisgiau, DVDs, deunyddiau celf a throli losin. Mae mynediad i'r ardal awyr agored yn ddiogel ac yn hygyrch i unrhyw un sydd am fwynhau'r ardd gaeedig, ddymunol. Mae digon o seddi a gwahanol ardaloedd i'r bobl eu defnyddio.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd a chaiff asesiadau o'r amgylchedd eu cwblhau er mwyn gwneud yn siŵr bod y bobl yn parhau'n ddiogel ac i'w hamddiffyn rhag niwed. Gwelsom gofnodion Iechyd a Diogelwch ac amserlenni glanhau a chynnal a chadw. Mae system gadarn ar waith i ddiogelu iechyd a diogelwch y bobl sy'n byw yn y cartref.  Mae gwiriadau diogelwch tân yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen, ac mae'r staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân. Mae'r asesiad risg tân yn gyfredol. Mae cofnodion gwasanaethu ar gyfer y teclynnau codi ar gael i'w gweld ac mae'r cofnodion yn cadarnhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio.  Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer pob agwedd ar y gwasanaeth ac yn cael eu cadw mewn ffeiliau er mwyn i'r staff allu cael gafael ar wybodaeth yn hawdd. Mae'r ystafell golchi dillad yn lân, yn daclus ac yn drefnus; fodd bynnag, mae angen ei hadnewyddu. Mae'r tîm rheoli yn ymwybodol o hyn ac wedi ei nodi fel maes y mae angen ei wella. Mae cynlluniau ar waith i uwchraddio'r ystafell hon.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n hwylus a bod gofal a chymorth o ansawdd uchel yn cael eu darparu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn llunio adroddiad o'i ymweliad sy'n dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn siarad â'r bobl a'r staff ac yn edrych ar yr amgylchedd. Mae'r darparwr yn cwblhau archwiliadau mewnol misol sy'n ymwneud â phob agwedd ar y gwasanaeth. Defnyddir yr archwiliadau hyn i fonitro gwelliannau. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu â'r Unigolyn Cyfrifol a'r tîm ansawdd er mwyn nodi ffyrdd ychwanegol o wella ansawdd y gofal a ddarperir. Roedd yr archwiliadau a welwyd yn ystod yr arolygiad yn cynnwys dogfennaeth gofal, yr amgylchedd, meddyginiaeth, a rheoli heintiau. Mae pob aelod o'r staff yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan ei reolwyr llinell a'r Unigolyn Cyfrifol.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y staff sy'n eu cefnogi wedi bod yn destun proses recriwtio gadarn a'u bod yn cael hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni eu rolau. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mynychu hyfforddiant a'u bod yn wybodus am y bobl y maent yn gofalu amdanynt a'u hanghenion penodol sy'n cynnwys rheoli diabetes, gofal iechyd y geg a chodi a chario ymhlith hyfforddiant arbenigol arall. Mae ffeiliau'r staff yn darparu tystiolaeth bod y darparwr yn cwblhau gwiriadau recriwtio statudol cyn i'r staff ddechrau yn eu rôl.

Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth lle caiff llesiant y staff ei hybu a lle mae digon o staff ar ddyletswydd. Gwelsom fod y lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion y bobl. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw ac yn y ddogfennaeth. Dywedodd y rheolwr mai anaml iawn y caiff staff asiantaeth eu defnyddio a bod proses recriwtio barhaus ar waith. Mae cofnodion goruchwylio'r staff yn cadarnhau eu bod yn cael eu goruchwylio'n unol â'r amserlenni gofynnol. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi, a'u bod yn teimlo bod gwaith tîm a morâl y staff wedi gwella. Dywedodd un aelod o'r staff *“It is really nice here, we have been through the mill, we have ups and downs, since the new manager has taken over it is much better. It feels nice to say these things”.* Dywedodd aelod arall o'r staff, *“I love working here, we have so much training and support from the manager, I couldn’t ask for a better team to work with”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/07/2023